**LC1432**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2006

Roedd Penderfyniad y Comisiwn 2005/760 yn gwahardd yr UE rhag mewnforio adar caeth gwyllt. Daeth y gwaharddiad hwn i ben ar 31 Rhagfyr 2006. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) 2006 drwy estyn y gwaharddiad tan 1 Ebrill 2007.

Gwnaed y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gweithredol ar 21 Rhagfyr 2006 a daethant i rym ar 31 Rhagfyr 2006. Fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 24.28.

## Rheol Sefydlog 11.7

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

## Sylwadau

Mae rhaglith y Rheoliadau yn cynnwys datganiad yn ymwneud â dynodi Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ond nid yw'n nodi y gwnaed y Rheoliadau yn dilyn y pwer sydd wedi'i gynnwys yn yr adran. Gan nad yw'r rhaglith yn rhan o'r Rheoliadau mewn gwirionedd, a bod y Rheoliadau wedi'u gwneud, o dan yr amgylchiadau, ni argymhellir cymryd camau o ran y mater hwn.

**David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**16 Ionawr 2007**